Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i Seilwaith Digidol yng Nghymru

1. Mae problemau cyfathrebu wedi llesteirio cynllun Cyflymu Cymru, sydd fel arall wedi bod yn llwyddiannus. Ymddengys fod gwersi wedi cael eu dysgu ar hyd y ffordd, ac mae'n hanfodol bod unrhyw raglenni yn y dyfodol yn adlewyrchu'r gwersi hyn o'r dechrau. Dylai BT barhau i hysbysu cwsmeriaid posibl eu bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau cyflym iawn y tu hwnt i ddiwedd y contract o dan sylw. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried nodi bod cyfathrebu â'r cyhoedd yn ofyniad perfformiad mewn unrhyw gontract yn y dyfodol

Derbyn:

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnwys mesurau perfformiad penodol wrth gyfathrebu â'r cyhoedd yn y cytundeb grant neu'r contract ar gyfer y cynllun a fydd yn olynu Cyflymu Cymru.

2. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu cynllun ecwiti neu grant ad-daladwy i alluogi gweithredwyr bach i lenwi'r bylchau yn y rhwydwaith. Yn ogystal, dylai'r Llywodraeth archwilio hyfywedd trefniadau perchnogaeth gyhoeddus neu bartneriaethau cyhoeddus gyda darparwyr gwasanaeth at ddibenion datblygu seilwaith mewn ardaloedd penodol.

3. Dylai cynlluniau'r dyfodol adeiladu ar lwyddiant Allwedd Band Eang Cymru a'r Cynllun Taleb Gwibgyswllt, sy'n ymateb i alw ymhlith defnyddwyr. Drwy gyflwyno cynllun ecwiti neu grant ad-daladwy, byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ganddi dri adnodd ar gyfer cefnogi'r ychydig filoedd o safleoedd sy'n weddill o ran mwynhau manteision band eang cyflym. Yn ogystal, dylai Llywodraeth Cymru deilwra'r cynllun hwn er mwyn sicrhau ei fod yn fwy hygyrch i fentrau bach a chanolig.

Derbyn mewn egwyddor:

Byddwn yn archwilio ystod o fodelau ariannu a pherchnogaeth i sicrhau bod cartrefi a busnesau yng Nghymru yn cael mynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf drwy brosiect olynol Cyflymu Cymru ac o ran unrhyw newidiadau i'n cynlluniau taleb yn y dyfodol.

Rydym yn ymwybodol o gronfa buddsoddi seilwaith digidol Llywodraeth y DU (DIIF) a bydd yn bwysig i unrhyw fodel ariannu newydd yng Nghymru ystyried bodolaeth y gronfa a, lle bo'n briodol, ei hategu.

4. Mae'n hanfodol bod y cymunedau a'r unigolion mwyaf anodd eu cyrraedd yn awr yn cymryd rhan yn y broses er mwyn sicrhau y gellir teilwra datrysiadau posibl i ddiwallu eu hanghenion. Bydd y broses o gysylltu'r 4 y cant sy'n weddill yn fwy costus, ac mae'n hanfodol bod cymunedau'n cefnogi'r datrysiadau sy'n cael eu cynnig.

5. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o anghenion y dyfodol er mwyn llywio camau nesaf y broses o ddatblygu datrysiadau. O ystyried y gost o gysylltu'r 4 y cant sy'n weddill, sydd wedi bod tu hwnt i gyrraedd y farchnad, mae'n hanfodol bod eu cysylltedd yn addas ar gyfer y dyfodol yn ogystal â'r presennol.

Derbyn:

Rydym wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o'r broses, a elwir yn adolygiad o'r farchnad agored, i nodi pa safleoedd a fydd yn aros heb eu gwasanaethu ar ôl i brosiect Cyflymu Cymru ddod i ben a pha gwmnïau telathrebu nad ydynt yn bwriadu eu gwasanaethau o dan eu rhaglenni masnachol.

Mae swyddogion yn asesu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a phroses ehangach yr adolygiad o'r farchnad ehangach. Bydd y broses hon yn llywio natur y prosiect a fydd yn olynu Cyflymu Cymru.

6. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud y defnydd o gymorthdaliadau cyhoeddus yn y dyfodol yn amodol ar gefnogi polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella'r seilwaith digidol a sicrhau ei fod yn diwallu anghenion defnyddwyr yn y dyfodol, ac yn benodol unrhyw gydgyfeirio tebygol rhwng cysylltedd band eang a chysylltedd y rhyngrwyd symudol.

Derbyn mewn egwyddor:

Mater cymhleth yw hwn a bydd angen ystyried yn llawn oblygiadau cyflwyno gofyniad o'r fath cyn gallu gwneud unrhyw benderfyniadau.

Mae'r Cod Cyfathrebu Electronig diwygiedig fel y nodir yn Neddf yr Economi Ddigidol, a'r rheoliadau cysylltiedig, yn nodi cyfundrefn statudol sy'n llywodraethu hawliau gweithredwyr cyfathrebu electronig, er enghraifft BT, EE, Vodaphone ac ati o ran gosod a chynnal a chadw seilwaith ar dir cyhoeddus a phreifat. Bydd y Cod diwygiedig yn ei gwneud yn haws i'r gweithredwyr osod cyfarpar ar dir preifat a chyhoeddus yng Nghymru.

7. Dylai Llywodraeth Cymru, o ystyried y topograffi lleol, ddiwygio'r drefn gynllunio i gefnogi buddsoddiadau mewn cysylltedd digidol, yn arbennig er mwyn caniatáu i fastiau gael eu gosod sy'n sicrhau darpariaeth ar gyfer ardal ddaearyddol ehangach. Yn ei dro, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda gweithredwyr ac awdurdodau cynllunio er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cyfleu'n glir i'r cymunedau yr effeithir arnynt a bod manteision allweddol cysylltedd ffonau symudol yn cael eu hyrwyddo.

8. Er nad oes gan Lywodraeth Cymru y pŵer i orfodi gweithredwyr ffonau symudol i rannu eu seilwaith, dylai archwilio a yw'n ymarferol defnyddio'r gyfundrefn gynllunio i annog gweithredwyr i rannu eu seilwaith er mwyn sicrhau bod darpariaeth ar gael mewn ardaloedd sy'n ddigyswllt ar hyn o bryd.

Derbyn:

Rydym wrthi'n archwilio'r cwmpas ar gyfer newidiadau yn y dyfodol i'r Gorchymyn Hawliau Datblygu a Ganiateir, gan gynnwys hawliau sy'n bodoli eisoes ar gyfer cyfarpar telathrebu symudol. Rydym wedi comisiynu gwaith ymchwil i lywio newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer cyfarpar telathrebu i wella cysylltedd symudol. Bydd y gwaith ymchwil yn cael ei gwblhau ym mis Tachwedd 2017.

Mae'r modd y mae gweithredwyr rhwydwaith ffonau symudol yn cyfathrebu â chymunedau lleol yn ystod y broses gynllunio ar gyfer ffonau symudol wedi ei nodi yn y cod arferion gorau ar ddatblygu rhwydwaith ffonau symudol. Mae'r cynllun gweithredu symudol yn cydnabod bod angen i'r cod presennol gael ei ddiweddaru. Drwy'r cynllun gweithredu, bydd gweithredwyr rhwydwaith ffonau symudol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddiwygio a, lle y bo'n briodol, gyfuno'r cod arferion gorau a'r Nodyn Cyngor Technegol (TAN19) ar ddatblygu seilwaith rhwydwaith ffonau symudol.

Rydym yn cydnabod manteision annog gweithredwyr rhwydwaith ffonau symudol i rannu mastiau i wella darpariaeth ac i leihau'r effaith ar y tirlun. Mae gweithredwyr ffonau symudol eisoes yn rhannu mastiau i raddau helaeth drwy fentrau ar y cyd rhwng Vodafone ac O2 Telefonica (CTIL) ac EE a Three (MBNL). Mae CTIL a MBNL yn codi mastiau ar ran y gweithredwyr rhwydwaith ffonau symudol. Mae cyfyngiadau technegol hefyd sy'n ei gwneud yn heriol rhannu mastiau ymhellach, gan gynnwys nodweddion gwahanol y sbectrwm sydd o dan berchnogaeth pob gweithredwr. Byddwn yn parhau i drafod â'r gweithredwyr rhwydwaith ffonau symudol ynghylch sut y gellir annog rhannu mastiau ymhellach.

9. **Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r gweithredwyr rhwydwaith ffonau symudol ac Ofcom er mwyn ystyried a fyddai cynnig rhyddhad ardrethi annomestig ar gyfer mastiau newydd mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd masnachol yn cael effaith sylweddol ar fuddsoddi.**

Derbyn:

Mae'r cynllun gweithredu symudol ar gyfer Cymru yn cynnwys ymrwymiad i Lywodraeth Cymru asesu effaith lleihau ardrethi annomestig ar gyfer seilwaith symudol newydd (mastiau, celloedd bach ac ati.) ar benderfyniadau buddsoddi gan weithredwyr ffonau symudol. Yn ogystal, lle bo tystiolaeth yn awgrymu y byddai gostyngiad mewn ardrethi annomestig yn annog buddsoddiad, mae'r cynllun yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried rhoi rhyddhad ardrethi annomestig ar safleoedd mastiau ffonau symudol priodol.

10. Dylai cynllun gweithredu ffonau symudol arfaethedig Llywodraeth Cymru gynnwys ymrwymiad cadarn i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid, yn benodol:

- **i gydweithio â llywodraeth leol, Llywodraeth y DU, rheoleiddwyr a'r diwydiant i ddatblygu seilwaith ffonau symudol sy'n gwneud y gorau o'r seilwaith cyfredol ac asedau cyhoeddus lle bo modd;**

- **i gydweithio â rhanddeiliaid ym mhob rhan o'r diwydiant i sicrhau bod y gweithredwyr rhwydwaith ffonau symudol yn rhannu darpariaeth mewn ardaloedd digyswllt; ac**
- **i gydweithio ag awdurdodau lleol a thirfeddianwyr i sicrhau y gall y gweithredwyr rhwydwaith ffonau symudol gael mynediad at asedau a ariennir yn gyhoeddus er mwyn gosod mastiau a chyfarpar eraill, ac i archwilio manteision y posibilrwydd o rannu mastiau gyda systemau ar gyfer cyfathrebu mewn argyfwng mewn ardaloedd digyswllt yng nghefn gwlad.**

Derbyn:

O ran defnyddio asedau cyhoeddus ar gyfer seilwaith symudol, mae'r cynllun gweithredu symudol yn amlinellu'r rôl bwysig y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae wrth hwyluso cydberthnasau rhwng gweithredwyr rhwydwaith ffonau symudol a darparwyr seilwaith rhwydwaith ffonau symudol, rheolwyr ystadau a phartïon eraill â diddordeb yng nghyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r cynllun gweithredu hefyd yn ymrwymo Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, i gynnal archwiliad o'r cofrestrau asedau presennol, gan gynnwys y gofrestr asedau cyhoeddus cenedlaethol arfaethedig sydd ar gael yn gyhoeddus, ac asesu eu haddasrwydd i'w defnyddio gan ddarparwyr seilwaith symudol.

O ran Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys, mae'r cynllun gweithredu ffonau symudol yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd â'r rhaglen i ystyried sut y gallai mastiau symudol newydd a ariennir gan y Swyddfa Gartref gael eu diogelu at y dyfodol, yn benodol lle yr ystyrir y gallai manteision ehangach gael eu cyflwyno a all ganiatáu i sawl gweithredwr ffonau symudol osod eu cyfarpar trosglwyddo i roi darpariaeth mewn ardaloedd anghysbell lle nad yw'n fasnachol hyfyw godi mast.

Fel y nodir uchod, mae gweithredwyr ffonau symudol eisoes yn rhannu mastiau i raddau helaeth drwy fentrau ar y cyd, fel CTIL (rhwng Vodafone ac O2 Telefonica) ac MBNL (EE a Three). Mae cyfyngiadau technegol sy'n ei gwneud yn heriol rhannu mastiau ymhellach, gan gynnwys nodweddion gwahanol y sbectrwm sydd o dan berchnogaeth pob gweithredwr.

11. Mae angen i Ofcom ddefnyddio ei holl bwerau rheoleiddio i sicrhau ei fod yn cyrraedd ei darged o ddarpariaeth ddaearyddol lawn (100 y cant). Ar y lleiaf, dylai hyn fod yn amod ar gyfer unrhyw arwerthiannau sbectrwm yn y dyfodol.

Derbyn:

Mae'r cynllun gweithredu ffonau symudol yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Ofcom i ddeall cyfleoedd a heriau dull daearyddol mwy gwahanol o reoleiddio i sicrhau ei fod yn briodol i Gymru. Rhan o hyn fydd parhau i alw ar Ofcom i osod goblygiadau darpariaeth briodol ar gyfer Cymru mewn arwerthiannau sbectrwm yn y dyfodol. Dylai'r goblygiadau darpariaeth ddarparu signal o ansawdd

da y gellir ei ddefnyddio ar gyfer llais a data yn y lleoedd y mae pobl yn byw, yn gweithio, yn teithio ac yn treulio eu hamser sbâr ynddynt.

12. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cynlluniau yng Nghymru ddarparu pecyn cymorth yn cynnwys cyngor clir o ran busnes a cheisiadau grant i gymunedau sy'n dymuno cael mynediad at arian cyhoeddus i greu eu datrysiadau eu hunain o ran gwella cysylltedd ffonau symudol yn eu hardal. Yn ogystal, dylid hyrwyddo enghreifftiau o arfer da mewn ardaloedd gwledig sydd â phroblemau cysylltedd.

Derbyn:

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru eisoes yn rhoi cyngor i gymunedau sydd am wella darpariaeth ffonau symudol yn eu hardal, gan gynnwys o blaid prosiect mast llwyddiannus Ger-y-Gors yng Ngheredigion. Bydd swyddogion yn parhau i roi cyngor a chymorth i brosiectau cymunedol tebyg ac os bydd galw am brosiectau seilwaith symudol yn y gymuned yn tyfu, yna byddwn yn ystyried rhoi cyngor cyfun ar ffurf pecyn cymorth neu fformat priodol arall.